Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Seren Fach
# Heol Dyffryn
# Aberpennar
# Rhondda Cynon Taf
# CF45 4DA

## Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2016

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 13/12/2016**

## Cyd-destun

Lleoliad cyfrwng Cymraeg yw Cylch Meithrin Seren, sydd wedi'i leoli yn nhref Aberpennar, yn awdurdod lleol Rhondda Cynon Taf. Mae'r lleoliad yn agor am bum niwrnod yr wythnos ac mae ganddo wyth o ymarferwyr. Mae cofrestriad y lleoliad yn caniatáu iddo dderbyn hyd at 24 o blant ar unrhyw adeg benodol, ac mae'r lleoliad yn derbyn plant rhwng dwy a phedair oed.

Mae bron pob un o'r plant o darddiad gwyn Prydeinig ac mae bron pob un ohonynt yn siarad Saesneg fel eu mamiaith. Ar hyn o bryd, ychydig iawn o blant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae rheolwr a bwrdd o gyfarwyddwyr gwirfoddol yn rheoli'r lleoliad ac mae'n gwmni elusennol cyfyngedig. Dechreuodd yr arweinydd ar ei swydd ym Medi 2012. Arolygwyd y lleoliad gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ddiwethaf yn Ionawr 2015. Hwn yw arolygiad cyntaf y lleoliad gan Estyn.

# Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd:

- Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd cryf yn eu medrau llythrennedd a rhifedd
- Mae bron pob un o'r plant yn ddysgwyr brwdfrydig
- Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn gyfrifol
- Caiff profiadau dysgu eu cynllunio'n dda
- Mae athrawon yn herio plant i berfformio ar eu gorau
- Mae ymarferwyr yn gweithio gyda'i gilydd yn dda ac mae eu gofal tyner yn creu amgylchedd dysgu effeithiol
- Mae Cymraeg llafar y rhan fwyaf o ymarferwyr yn datblygu'r ffordd y mae plant yn dysgu'r iaith mewn modd cadarnhaol
- Mae ardaloedd ysgogol dan do yn ennyn diddordeb y plant yn llwyddiannus
- Mae defnyddio amwynderau cymunedol yn cefnogi dysgu yn yr awyr agored yn bwrpasol

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn dda oherwydd:

- Mae'r rheolwr a'r arweinydd yn rhoi cyfeiriad strategol clir i waith y lleoliad ac yn sicrhau ansawdd ei arferion yn effeithlon
- Mae systemau arfarnu trylwyr yn bodoli sy'n ystyried safbwyntiau pawb sy'n gysylltiedig â'r lleoliad
- Mae hyfforddiant ymarferwyr yn effeithiol
- Mae defnydd pwrpasol o wasanaethau cymorth o fudd i blant, yr arweinwyr a'r ymarferwyr
- Mae perthnasoedd cadarnhaol gyda rhieni, y gymuned a'r ysgol leol yn cefnogi'r camau nesaf yn nysgu'r plant yn dda
- Mae defnydd synhwyrol o gyllid yn sicrhau gwelliannau yn ansawdd y ddarpariaeth
- Mae cymorth synhwyrol gan fwrdd y cyfarwyddwyr yn cynnal darpariaeth effeithiol, rheoleiddio ariannol cadarn ac arferion arwain cadarn

## Argymhellion

A1 Gwella cyfleoedd i blant ddatblygu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh)

A2 Sicrhau bod cyflwyniadau ymarferwyr i dasgau yn effeithiol, i gynnal diddordebau'r plant

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae'r rhan fwyaf o blant yn dangos cynnydd cryf wrth ddatblygu eu medrau ar draws yr holl feysydd dysgu, yn enwedig eu medrau llythrennedd a rhifedd. Maent yn siarad yn synhwyrol ynglŷn â'r modd y maent yn datblygu eu medrau wrth iddynt greu paentiadau ag olion llaw ac wrth ddarganfod pryfed mewn pridd ac iâ.

Mae medrau Cymraeg bron pob un o'r plant yn wael pan fyddant yn dechrau. Fodd bynnag, mae eu dealltwriaeth gynnar a'u defnydd o'r iaith yn datblygu'n dda. Mewn cyfnod byr, mae llawer o blant yn dangos dealltwriaeth sylfaenol dda o'r iaith. Er enghraifft, defnyddiant eiriau ac ymadroddion syml yn dda tra byddant yn casglu dail yn y goedwig gyfagos ac wrth brynu ffrwythau ag arian go iawn yn y siop chwarae rôl.

Mae llawer o blant yn deall beth i'w wneud pan gânt gyfarwyddyd yn Gymraeg. Mae hyn yn hynod amlwg pan fyddant yn gwrando'n astud ar storïau a phan fyddant yn dechrau olrhain rhifau trwy symud ceir o gwmpas traciau yn ôl siapiau gwahanol rifau. Maent yn ceisio siarad yn glir ac yn gwneud yn siŵr bod pobl eraill yn eu deall wrth iddynt ymateb i gwestiynau ymarferwyr yn Gymraeg yn ystod tasgau. Maent yn gwrando ar gyfarwyddiadau ac yn gweithredu yn unol â nhw yn brydlon, gan ddangos ymwybyddiaeth gynyddol o'r iaith. Maent yn ymateb yn dda yn ystod gweithgareddau grŵp wrth benderfynu pa offerynnau cerdd i'w canu gyda'i gilydd neu'r sialciau sydd eu hangen i gwblhau tasgau ar îsl.

Mae lleiafrif o blant yn defnyddio patrymau iaith ac ymadroddion yn bwrpasol heb anogaeth gan oedolyn. Mae hyn yn digwydd yn ystod gweithgareddau chwarae a ffocws anffurfiol, er enghraifft wrth reidio beiciau yn yr ardal dan do, chwaraeon dominos a chwblhau jig-sos. Mae'r rhan fwyaf o blant yn dangos diddordeb mewn llyfrau. Maent yn deall diben y darluniau ac yn cymharu cymeriadau yn effeithiol. Mae'r rhan fwyaf o blant yn trin a thrafod y llyfrau yn yr ardal ddarllen fel darllenwyr cynnar hyderus.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn arbrofi â chreu marciau yn effeithiol. Mae hon yn nodwedd amlwg yn y lleoliad, ac mae plant yn mwynhau profiadau ysgrifennu gan ddefnyddio cyfryngau amrywiol. Mae enghreifftiau'n cynnwys paentio â brwshys paent, sgriblo a gwneud cylchoedd â sialciau, casglu archebion ffrwythau ag ysgrifbinnau a ffurfio llythrennau yn y tywod. Ychydig iawn o blant sy'n dechrau ffurfio llythrennau'r wyddor a rhifau mewn ffurfiau y gellir eu hadnabod yn weddol wrth drin a thrafod pensiliau a chreonau. Mae mwyafrif y plant yn esbonio diben ysgrifennu yn y cyd-destun cywir. Mae lleiafrif o blant yn adnabod eu henwau eu hunain ac enwau plant eraill yn ystod cyfnod cofrestru ar y bwrdd gwyn rhyngweithiol.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn defnyddio iaith fathemategol yn bwrpasol ac mewn cyd-destunau bob dydd. Mae mwyafrif y plant yn adnabod, yn enwi ac yn cyfrif rhifau i bump gyda chymorth oedolyn, ac mae lleiafrif ohonynt yn cyfrif i ddeg a thu hwnt yn

gywir, wrth ddidoli siapiau a gwrthrychau gwahanol liw. Ychydig iawn o blant sy'n dangos dealltwriaeth sylfaenol o sut i fondio rhifau i bump trwy drefnu teganau yn yr ardal byd bach.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn deall y gwahaniaethau mewn maint wrth roi doliau i eistedd mewn seddi cludo. Maent yn esbonio'n gywir os yw gwrthrychau yn 'rhy fawr' neu'n 'rhy fach' a phan fyddant yn sefyll 'yn agos at' neu 'ymhell' oddi wrth goed ac ochr y ffordd. Mae bron pob un o'r plant yn defnyddio ystod dda o iaith fathemategol wrth gydweithio â'i gilydd mewn chwarae digymell, er enghraifft wrth gymharu hyd, pwysau neu gynhswysedd gwahanol wrthrychau. Maent hefyd yn defnyddio rhifau yn dda mewn gweithgareddau ymarferol wrth gymharu siapiau dau a thri dimensiwn fel fflat neu grwn, ac wrth gyfrif nifer y deinosoriaid yn y tywod a'r pwll dail.

Mae bron pob un o'r plant yn mwynhau gwrando ar gerddoriaeth ac maent yn ymateb yn frwdfrydig i hwiangerddi a chaneuon cyfarwydd yn Gymraeg. Maent yn canu offerynnau yn frwdfrydig iawn yn ystod gweithgareddau cerddorfaol gyda siglwyr, gitarau, maracas ac offerynnau taro eraill. Maent yn deall yn glir bod cerddoriaeth yn cynnwys curiad a bod ymadroddion cerddorol yn gryfach neu'n feddalach na'i gilydd.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn defnyddio technoleg yn effeithiol wrth ddefnyddio camerâu, teganau electronig a thiliau mewn gweithgareddau bob dydd. Fodd bynnag, cyfyngedig yw eu defnydd o feddalwedd addysgol i ddatblygu eu medrau TGCh a'u medrau echddygol manwl.

Mae llawer o blant yn dewis offer a deunyddiau perthnasol i ddatrys problemau ymarferol yn effeithiol. Er enghraifft, defnyddiant gamerâu a chwyddwydrau i ddarganfod lindys 'hir' a 'byr' mewn adran o ardal goetir y dref. Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau meddwl da. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar eu dysgu a'r safonau a gyflawnir ganddynt, er enghraifft pan fyddant yn gweithio gyda phlant eraill yn ddeallus i adeiladu strwythurau gan ddefnyddio blociau a thra'n cyfrannu at graffiau syml ar ddarnau mawr o bapur.

**Lles: Da**

Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda ac maent yn gwrtais. Maent yn ymateb â pharch i oedolion a'i gilydd. Mae bron pob un o'r plant yn gwrando'n ofalus ar oedolion, er enghraifft pan fyddant yn cerdded mewn parau i'r goedwig. Ar ôl defnyddio'r toiled, chwarae sy'n creu llanastr a gweithgareddau awyr agored, mae bron pob un o'r plant yn golchi eu dwylo'n drylwyr, heb ormod o anogaeth gan oedolion.

Mae bron pob un o'r plant yn dangos cymhelliant a diddordeb yn eu dysgu, ac mae'r rhan fwyaf o blant yn dangos lefelau uchel o ymgysylltu yn ystod tasgau. Maent yn mwynhau'r gweithgareddau yn y meysydd dysgu ac yn rhannu a gweithio'n synhwyrol â phlant eraill. Mae'r rhan fwyaf o blant yn dangos agweddau cadarnhaol at brofiadau newydd, er enghraifft wrth gasglu dail yn frwdfrydig mewn bagiau plastig.

Mae bron pob un o'r plant yn uniaethu'n dda ag oedolion ac ymwelwyr wrth gyrraedd y lleoliad ac wrth adael. Mae llawer o blant yn ddysgwyr hyderus ac annibynnol.

Mae hyn yn arbennig o amlwg pan fydd llawer ohonynt yn esbonio’n feddylgar pa feysydd dysgu sy’n cynnwys eu hoff weithgareddau.

Mae’r rhan fwyaf o blant yn dechrau deall bod ganddynt hawliau fel unigolion a bod ganddynt ddewis i fynegi barn a ffafriaeth bersonol, er enghraifft wrth benderfynu parhau i wneud tasgau penodol.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw’r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae’r rheolwr, yr arweinydd a’r ymarferwyr yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys, sy’n adlewyrchu ethos y Cyfnod Sylfaen yn dda. Mae’r profiadau dysgu yn targedu anghenion a diddordebau plant yn llwyddiannus ac yn rhoi cyfleoedd cadarnhaol iddynt ddatblygu fel dysgwyr annibynnol. Mae’r ymarferwyr yn gweithio gyda’i gilydd yn effeithiol i gyflwyno gweithgareddau difyr a phwrpasol. Mae gweithgareddau o’r fath yn ysgogi ac yn cymell plant i ddysgu trwy brofiadau ymarferol, creadigol a heriol.

Mae darpariaeth profiadau dysgu yn ysgogol ac mae’n cynnig parhad i ddysgu’r plant. Mae’r lleoliad yn cynllunio’n fanwl i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a meddwl plant. Mae tasgau llythrennedd a rhifedd yn amlwg iawn ym mhob maes dysgu, ac mae ymarferwyr yn herio plant i berfformio ar eu gorau yn gyson. Mae cynllunio gweithgareddau ysgrifennu cynnar a deall rhifau yn herio pob plentyn yn ddigonol i ddatblygu medrau gwell wrth ddechrau ffurfio llythrennau a rhifau.

Mae darpariaeth y lleoliad ar gyfer datblygu’r Gymraeg yn cydnabod bod medrau plant ar lefel isel pan fyddant yn dechrau yno. Mae ymarferwyr yn mynd i’r afael â hyn trwy fodelu geiriau ac ymadroddion yn effeithiol a rheolaidd. O ganlyniad, mae dealltwriaeth plant o’r iaith yn datblygu’n dda ac maent yn dechrau ymateb yn dda gan ddefnyddio ymadroddion syml.

Maent yn annog plant i ddefnyddio’r iaith cymaint ag y bo modd trwy weithgareddau ysgogol gyda grwpiau penodol o blant sy’n cael eu harwain gan weithwyr allweddol. Mae’r gweithwyr allweddol hyn yn herio a holi plant yn ddeallus i ymateb i ystod eang y gweithgareddau y tu mewn i’r adeilad ac yn yr ymweliadau dyddiol â’r goedwig gyfagos a chyfleusterau’r dref.

Mae ymarferwyr yn trefnu gweithgareddau’r thema i herio plant yn effeithiol. Mae cynllunio o’r fath yn cyfoethogi gweithgareddau ymhellach. Mae’n cyfrannu’n sylweddol at frwdfrydedd dyddiol y plant wrth iddynt ddysgu trwy brofiadau diddorol y tu mewn i’r adeilad ac yn yr awyr agored o gwmpas y dref. Mae ymarferwyr yn rhoi cyfleoedd ysgogol i blant chwarae rôl yn y siop ffrwythau a’r gegin, i amcangyfrif faint o bryfed sydd yn y pridd ac arbrofi â phaentiau wrth argraffu cyfansoddiadau lliwgar â llaw. Mae gweithgareddau o’r natur hon yn adeiladu’n systematig ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau presennol plant yn dda.

Mae’r lleoliad yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o draddodiadau, dathliadau a diwylliant Cymru yn llwyddiannus. Mae’r gweithgareddau hyn yn cynnwys dathlu Dydd Gŵyl Dewi a Dydd Santes Dwynwen, darllen chwedlau gwerin o Gymru gyda’i gilydd, gwneud cawl o gynnyrch gardd a phobi cacennau cri a bara.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu TGCh yn cynnig cyfleoedd i ddefnyddio ystod o offer, fel camerâu, teganau electronig a thiliau. Fodd bynnag, nid yw ymarferwyr yn rhoi digon o gyfleoedd i blant ddefnyddio meddalwedd addysgol bwrpasol a thechnoleg fwy datblygedig i ddatblygu eu medrau TGCh yn llawn.

Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd buddiol o ymwelwyr i gyfoethogi profiadau dysgu plant. Er enghraifft, mae'r gwasanaethau brys, y swyddog diogelwch ffordd, hylenyddion deintyddol a pherfformwyr yn addysgu plant yn bwrpasol am rolau pobl yn eu cymuned. Mae ymarferwyr yn defnyddio siopau a chaffis lleol, cludiant cyhoeddus, y parc a'r ardal goediog i hyrwyddo dealltwriaeth y plant o'u cymuned leol yn llwyddiannus.

**Addysgu: Da**

Mae pob un o'r ymarferwyr yn meddu ar y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiad plentyn. Maent yn deall gofynion y Cyfnod Sylfaen yn dda ac yn cydweithio'n effeithiol. Mae'r arweinydd a'r ymarferwyr yn dangos cydbwysedd synhwyrol rhwng gweithgareddau wedi eu harwain gan blant a'r rheiny sy'n cael eu harwain gan oedolion. Maent yn darparu ystod eang o gyfleoedd i ddysgu trwy chwarae a phrofiadau ymarferol.

Mae ymarferwyr yn cyfarch y plant yn gynnes ac yn frwdfrydig wrth iddynt gyrraedd ar gyfer pob sesiwn. Mae'r brwdfrydedd hwn yn parhau trwy gydol y sesiwn. Mae ymarferwyr yn rheoli ymddygiad eu plant yn gadarnhaol ac yn ddiogel ac mae hyn yn annog cyfranogiad a mwynhad llwyddiannus y plant ym mhob gweithgaredd.

Mae gan yr ymarferwyr ddisgwyliadau uchel ar gyfer pob un o'r plant ac maent yn herio plant yn gyson ym mhob tasg ffocws. Maent yn ymyrryd yn synhwyrol yn chwarae'r plant ac yn cymell plant i berfformio ar eu gorau yn ystod gweithgareddau parhaus a manylach. Mae ymarferwyr yn holi plant yn dda er mwyn datblygu medrau meddwl a chyfathrebu. Mae hyn yn amlwg wrth drafod y newidiadau sy'n digwydd wrth i lindysyn ddatblygu i fod yn iâr fach yr haf a phan gaiff pryfed o wahanol liwiau eu gosod mewn bwcedi o liwiau sy'n cyfateb. Fodd bynnag, mae cyflwyniadau i dasgau ffocws yn rhy hir o bryd i'w gilydd, ac o ganlyniad, nid yw ymarferwyr yn cynnal diddordebau'r plant yn effeithiol.

Mae pob ymarferwr yn cwblhau asesiadau dyddiol yn rheolaidd ac yn gyson. Maent yn annog y plant i asesu eu dysgu eu hunain yn dda. Wedyn, maent yn trafod yn sensitif gyda'r plant beth mae angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith. Mae ymarferwyr yn cofnodi arfarniadau a thrafodaethau bob dydd ar daflenni cofnodi effeithiol ac yn llyfrau datblygu'r plant. Mae hyn yn arwain yn uniongyrchol at gynllunio tasgau ac mae'n targedu'r camau nesaf yn nysgu'r plant yn effeithlon. O ganlyniad, mae'r gweithdrefnau ar gyfer asesu a chofnodi cyflawniadau plant yn gywir a defnyddiol. Caiff yr holl dystiolaeth ei gweddu'n drylwyr i ddeilliannau plant unigol gan ddefnyddio proffil y Cyfnod Sylfaen, wrth iddynt aeddfedu yn y lleoliad.

Mae'r lleoliad yn hysbysu rhieni a gofalwyr yn rheolaidd am gyflawniadau eu plant. Ar ddiwedd eu cyfnod yn y lleoliad, mae ymarferwyr yn cyflwyno llyfr datblygiad llawn gwybodaeth, sy'n cynnwys ffotograffau, gwaith plant ag anodiadau ac adroddiadau ar gynnydd y plentyn i rieni.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae trefniadau effeithlon yn bodoli i gefnogi iechyd a lles plant ac mae'r lleoliad yn gweithredu gweithdrefnau effeithiol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. O ganlyniad, mae'r plant yn deall bod ffrwythau, llysiau ac ymarfer corff yn cyfrannu at ffordd synhwyrol o fyw.

Mae'r lleoliad yn cynnig cyfleoedd cadarnhaol i hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol plant. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn defnyddio trafodaethau grŵp i ystyried teimladau ei gilydd yn ystod cofrestru ac adeg prydau bwyd. Mae hyn yn meithrin gwerthoedd fel gonestrwydd, tegwch a pharch at ei gilydd yn llwyddiannus. Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i blant fyfyrio, trafod teimladau, dweud diolch a gweddïo. Mae hyn yn creu amgylchedd tawel, pan fydd plant yn eistedd i wrando ar oedolion ac yn dweud diolch am eu bwyd. O ganlyniad, mae'r plant yn cymryd eu tro yn gwrtais wrth iddynt fwyta byrbrydau ac yn gweini llaeth a dŵr yn ofalus o amgylch y byrddau bwyd.

Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd rheolaidd i blant ailgylchu papur, cardfwrdd, cynhwysyddion plastig a bwyd. Mae hyn yn datblygu dealltwriaeth y plant o gynaliadwyedd yn effeithiol.

Mae'r lleoliad yn defnyddio strategaethau ymddygiad cadarnhaol, sy'n dileu unrhyw fath o aflonyddwch neu gamau gormesol. Mae'r lleoliad yn amgylchedd diogel ac mae'r ymarferwyr yn cymryd gofal da am y plant pan fyddant yn cyrraedd a phan gânt eu casglu. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r lleoliad yn cofnodi anghenion dysgu plant yn gywir pan fyddant yn ymuno â'r lleoliad, ac yn ystod eu cyfnod yno. Mae ymarferwyr yn adolygu cynnydd plant yn rheolaidd ac yn nodi eu mannau cychwyn yn drylwyr trwy ddilyn canllawiau proffil y Cyfnod Sylfaen. Felly, mae'r lleoliad yn targedu plant ag anghenion cymorth ychwanegol yn effeithiol pan fydd angen. Mae ymarferwyr yn trafod y plant hyn gyda'r asiantaethau priodol er mwyn darparu cymorth cyn gynted ag y bo modd i dargedu eu hanghenion.

## Yr amgylchedd dysgu: Da

Mae'r lleoliad yn gymuned gynhwysol lle caiff yr holl blant gyfle cyfartal i elwa ar yr holl feysydd dysgu ac adnoddau. Mae ymarferwyr yn meddu ar wybodaeth drylwyr am yr holl blant a chydnabyddir eu hunigolrwydd yn llwyddiannus. Mae ymarferwyr yn herio plant bob dydd mewn modd cadarnhaol, gofalus a sensitif.

Mae'r lleoliad yn hyrwyddo ethos gofalgar trwy ei weithgareddau dyddiol a'r dull a fabwysiadwyd gan yr ymarferwyr. Mae pawb yn rhoi pwyslais clir ar gydnabod, parchu a dathlu amrywiaeth. Mae'r lleoliad yn cyflawni hyn yn effeithiol trwy ddathlu gwahanol wyliau o bob cwr o'r byd bob blwyddyn, fel y Flwyddyn Newydd Dsieineaidd, Eid, Hanukkah a Diwali. Mae hefyd yn defnyddio doliau o wahanol gefndiroedd diwylliannol yn bwrpasol i hyrwyddo'r hyn sy'n debyg ac yn wahanol rhwng pobl.

Yn gyffredinol, mae'r lleoliad yn defnyddio ei adnoddau'n dda i fodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen ac anghenion plant. Caiff ystod eang yr adnoddau diddorol eu defnyddio'n effeithiol mewn gweithgareddau parhaus, y tasgau â ffocws a'r cyfleoedd i gyfoethogi'r dysgu. Mae'r adnoddau yn hygyrch i bob un o'r plant, ac yn hyrwyddo eu synnwyr o gyfrifoldeb yn bwrpasol. Fodd bynnag, nid oes gan y lleoliad ddigon o adnoddau TGCh i ddatblygu medrau'r plant yn drylwyr.

Mae ansawdd yr adeilad yn addas; mae'n lân, yn cael ei gynnal yn dda ac yn ddiogel. Er nad oes gan y lleoliad ardal awyr agored, mae'n defnyddio'r ardaloedd dan do ac adnoddau awyr agored y dref yn dda iawn, gan gynnwys defnyddio'r goedwig gyfagos bob dydd. Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd tyfu a phlannu ar gyfer y plant gan ddefnyddio gwelyau tyfu ar adegau penodol o'r flwyddyn. Caiff cyfarpar dringo dan do, beiciau a heriau ysgogol eu trefnu'n dda yn yr ystafell weithgareddau fawr. Mae'r lleoliad yn defnyddio ardaloedd glan afon y dref yn effeithiol ar gyfer ymchwiliadau amgylcheddol.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae amcanion strategol, cynlluniau a pholisïau'r lleoliad yn canolbwyntio'n dda ar sicrhau darpariaeth effeithiol, sy'n bodloni anghenion plant yn dda ac yn hyrwyddo cyflawniadau'r plant. Mae'r arweinydd yn rheoli tîm o ymarferwyr ymroddgar yn dda ac yn eu cymell tuag at welliannau mewn ffyrdd cadarnhaol, synhwyrol a chefnogol. Mae'n rhoi cyfeiriad strategol cadarnhaol i arferion dyddiol a thymor hir y lleoliad, sy'n hyrwyddo a chynnal gwelliannau yn dda. Mewn cydweithrediad â'r rheolwr, mae'n rheoli'r cynllunio, yr addysgu a'r dysgu yn effeithiol. Mae'n sicrhau bod gan ymarferwyr ddisgwyliadau uchel o bob un o'r plant.

Mae'r arweinydd yn defnyddio gwybodaeth berthnasol am y lleoliad i ysgogi gwelliannau i'r ddarpariaeth. Yn ddiweddar, mae hyn yn cynnwys datblygu arferion asesu i dargedu plant â lleferydd gohiriedig, gan ddefnyddio cyfleusterau'r dref i ddarparu cyfleoedd dysgu effeithiol yn yr awyr agored a gwella datblygiadau creadigol, gyda ffocws penodol ar ddarpariaeth gerdd. Mae hi hefyd yn canolbwyntio'n dda ar flaenoriaethau cenedlaethol, fel datblygu strategaethau llythrennedd a rhifedd, i wella medrau plant.

Mae'r arweinyddiaeth, sy'n cynnwys bwrdd cyfarwyddwyr cefnogol, yn sicrhau bod y ddarpariaeth ar gyfer y plant yn ddiddorol a phwrpasol. Maent yn sicrhau bod ymarferwyr yn deall eu rolau'n llawn ac yn gweithio fel tîm wedi'i gymell, trwy arferion goruchwylio a gwerthuso rheolaidd. Mae'r system hon yn sicrhau bod y defnydd gorau'n cael ei wneud o arbenigedd ymarferwyr ac yn diffinio gwahanol rolau a chyfrifoldebau gweithwyr allweddol yn dda. Mae bwrdd y cyfarwyddwyr yn cyfarfod yn rheolaidd ac mae'n cael gwybodaeth am arferion y lleoliad o ddydd i ddydd yn rheolaidd gan y rheolwr a'r arweinydd. Maent yn herio'r lleoliad yn gadarn i gynnal arferion da a datblygu'r meysydd y mae angen eu gwella ymhellach.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gan y lleoliad ddiwylliant hunanarfarnu cadarnhaol sy’n canolbwyntio ar wella ansawdd ei wasanaethau. Mae arweinwyr wedi sefydlu trefniadau cyson i fonitro safonau plant a’r ddarpariaeth ddyddiol. Mae’r cydweithio effeithiol a’r wybodaeth a gesglir yn rheolaidd, ochr yn ochr â chyfarfodydd staff a phecyn canllawiau arfarnu’r awdurdod lleol, yn cyfrannu at yr arferion hyn yn llwyddiannus.

Mae’r prosesau hunanarfarnu yn ystyried safbwyntiau’r ymarferwyr, y rhieni a’r gofalwyr dynodedig, yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin. Mae’r wybodaeth hon yn galluogi’r lleoliad i gael dealltwriaeth eang o’i ddarpariaeth. O ganlyniad, mae’r adroddiad hunanarfarnu, sy’n deillio o’r systemau hyn, yn nodi cryfderau’r lleoliad yn dda. Mae hefyd yn nodi’r meysydd datblygu, a’r rhesymau y tu ôl iddynt, yn effeithiol.

Mae arweinwyr yn cynnal arferion sicrhau ansawdd effeithiol ac maent yn rhoi newid ar waith trwy gynlluniau gweithredu datblygedig. Maent yn blaenoriaethu gwariant yn unol â’r camau gweithredu a nodwyd ar gyfer gwella. Cânt gyngor gwerthfawr gan bobl eraill i gefnogi’r newidiadau hyn. Mae hyn yn cynnwys hyfforddi ymarferwyr yn rheolaidd i gofnodi datblygiadau plant wrth iddynt aeddfedu yn y lleoliad, sy’n effeithio ar fedrau plant yn bwrpasol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan y lleoliad ystod o bartneriaethau strategol effeithiol. Mae’r lleoliad yn gweithio’n llwyddiannus gyda’r partneriaid hyn i wella darpariaeth a safonau a lles plant. Mae hyn yn cynnwys cyswllt cadarnhaol â’r ysgol leol, y mae’r rhan fwyaf o blant yn trosglwyddo iddo ar ddiwedd eu cyfnod yn y lleoliad. Mae athrawes y dosbarth meithrin yn ymweld â’r lleoliad ac mae’r plant yn ymweld â’r feithrinfa gyda’u rhieni a’u hymarferwyr. Mae hyn yn cefnogi trefniadau pontio’r plant yn dda. Mae trefniadau ar gyfer trosglwyddo gwybodaeth bersonol ac asesiadau yn effeithiol ac yn fuddiol i’r plant wrth iddynt ymgynefino â’r ysgol.

Mae ymarferwyr yn cymryd camau gweithredol i gynnwys rhieni a gofalwyr ym mywyd y lleoliad. Mae’r lleoliad yn hysbysu rhieni a gofalwyr yn rheolaidd am bob agwedd ar waith y lleoliad. Cânt eu hannog i gynnig eu barn eu hunain hefyd ar faterion i wella’r lleoliad trwy holiaduron a thrafodaethau rheolaidd.

Mae cysylltiadau cymunedol y lleoliad yn cefnogi dysgu plant yn dda. Mae hyn yn cynnwys digwyddiadau llwyddiannus i godi arian a chynigion cyllid grant. Yn ychwanegol, mae’r lleoliad yn cefnogi elusennau lleol a chenedlaethol, sy’n meithrin tynerwch a gofal ymhlith y plant.

Mae’r lleoliad yn gweithio’n bwrpasol gydag asiantaethau allanol, fel yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin. Mae hyn yn atgyfnerthu’r perthnasoedd cadarnhaol sy’n bodoli ac mae’r sefydliadau hyn yn mynd ati i gefnogi dogfennau hyfforddi a rheoli yn effeithiol.

Mae ymarferwyr yn gweithio a chysylltu ag ystod eang o bartneriaid eraill, sydd hefyd yn gwneud cyfraniadau pwysig at wella’r ddarpariaeth. Mae’r rhain yn cynnwys asiantaethau sy’n cynorthwyo’r lleoliad â hyfforddiant mewn cymorth cyntaf, cyrsiau hylendid bwyd, asesiadau risg, cyngor ar drafod â llaw, cymorth busnes, datblygiadau’r Cyfnod Sylfaen a hyfforddiant amddiffyn plant.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae arweinwyr yn canolbwyntio'n uniongyrchol ar wella pob agwedd ar waith y lleoliad trwy ddefnyddio ymarferwyr yn ddeallus a dyrannu adnoddau'n effeithiol. Maent yn sicrhau bod gan y lleoliad ddigon o ymarferwyr cymwys, sydd wedi cael hyfforddiant perthnasol, i fodloni anghenion y plant.

Mae arferion arwain pwrpasol yn galluogi ymarferwyr i ddatblygu a rhannu eu gwybodaeth broffesiynol yn dda. O ganlyniad, mae cymuned ddysgu fywiog yn bodoli, lle mae cydweithio effeithiol rhwng ymarferwyr a phartneriaid eraill yn cefnogi pob agwedd ar waith y lleoliad.

Mae'r systemau rheoli perfformiad yn drylwyr ac yn sicrhau profiadau dysgu diddorol ac arferion addysgu cadarn. Mae'r lleoliad yn rheoli adnoddau yn greadigol i gefnogi dysgu, yn enwedig o ganlyniad i'r diffyg cyfleusterau awyr agored. Mae hyn yn cynnwys newid cynllun yr ystafell yn rheolaidd i gefnogi gwahanol themâu a defnyddio amwynderau'r dref i gefnogi dysgu yn yr awyr agored.

Mae arweinwyr yn defnyddio'r gyllideb yn dda ac yn blaenoriaethu gwariant yn erbyn amserlenni a chyfrifoldebau yn llwyddiannus. Mae hyn yn creu gwelliannau pwrpasol, rheolaidd a chyson trwy drafodaethau buddiol a chynlluniau gwella wedi'u cyllido'n dda. Mae'r lleoliad yn sicrhau bod y defnydd a wneir o gyllid yn cael effaith uniongyrchol ar y ddarpariaeth a deilliannau plant.

Mae'r lleoliad yn darparu gwerth da am arian, o ganlyniad i'r cynnydd y mae plant yn ei wneud o'u mannau cychwyn, y ddarpariaeth effeithiol a'r arweinyddiaeth bwrpasol.

# Atodiad 1

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i rieni

Mae'n dynodi'r meincnod – dyma yw cyfanswm yr holl ymatebion er Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the setting. | 15 | 10<br>67% | 5<br>33% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n fodlon â'r lleoliad yn gyffredinol. |
| | | 80% | 20% | 0% | 0% | | |
| My child likes this setting. | 14 | 10<br>71% | 4<br>29% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r lleoliad hwn. |
| | | 84% | 15% | 0% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the setting. | 15 | 13<br>87% | 2<br>13% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn y lleoliad. |
| | | 86% | 13% | 0% | 0% | | |
| My child is making good progress at the setting. | 15 | 11<br>73% | 4<br>27% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn y lleoliad. |
| | | 81% | 19% | 0% | 0% | | |
| Children behave well in the setting. | 14 | 7<br>50% | 7<br>50% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Mae plant yn ymddwyn yn dda yn y lleoliad. |
| | | 72% | 27% | 0% | 0% | | |
| Teaching is good. | 15 | 11<br>73% | 4<br>27% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 81% | 19% | 0% | 0% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 15 | 10<br>67% | 5<br>33% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 84% | 16% | 0% | 0% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 14 | 7<br>50% | 7<br>50% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 76% | 23% | 0% | 0% | | |
| My child is safe at the setting. | 15 | 12<br>80% | 3<br>20% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn y lleoliad. |
| | | 85% | 15% | 0% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs. | 14 | 6<br>43% | 8<br>57% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 72% | 27% | 1% | 0% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I am kept well informed about my child's progress. | 15 | 9<br>60% | 6<br>40% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 63% | 30% | 5% | 1% | | |
| I feel comfortable about approaching the setting with questions, suggestions or a problem. | 15 | 11<br>73% | 4<br>27% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n teimlo'n gysurus ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r lleoliad, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 80% | 18% | 1% | 0% | | |
| I understand the setting's procedure for dealing with complaints. | 14 | 4<br>29% | 10<br>71% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Rwy'n deall trefn y lleoliad ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 65% | 31% | 3% | 1% | | |
| My child is well prepared for moving on to school. | 13 | 8<br>62% | 5<br>38% | 0<br>0% | 0<br>0% | 2 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol. |
| | | 74% | 25% | 1% | 0% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 13 | 4<br>31% | 9<br>69% | 0<br>0% | 0<br>0% | 2 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 63% | 32% | 4% | 1% | | |
| The setting is well run. | 15 | 11<br>73% | 4<br>27% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r lleoliad yn cael ei redeg yn dda. |
| | | 82% | 17% | 1% | 0% | | |

# Atodiad 2

### Yr arolygydd cofnodol

| | |
|---|---|
| Nicholas Jones | Arolygydd Cofnodol |

### Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Lywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br><br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |